# Taflen Wybodaeth y Storïwr

Diolch am gymryd yr amser i rannu eich profiadau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro.

Rydym eisiau clywed am eich profiadau personol (da a drwg) fel y gallwn nodi ffyrdd o barhau i wella ein gwasanaethau i gleifion, gofalwyr a staff.

Bydd eich stori'n cael ei sain-recordio ac yna'n cael ei thrawsgrifio neu ei rhoi at ei gilydd gyda delweddau (ffotograffau neu luniadau o'ch dewis) i greu clip fideo byr.

Ni chewch eich ffilmio; gallwch aros mor ddienw ag y dymunwch yn eich stori.

Ni fydd unrhyw beth yn cael ei rannu â phobl eraill nes i chi adolygu'r deunydd a llofnodi ffurflen ganiatâd.

Ni fydd y stori yn rhan o'ch cofnodion meddygol ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw ofal neu ymgysylltiad yn y dyfodol y gallech chi neu'ch teulu ei gael gyda ni fel eich darparwr gofal iechyd.

Bydd BIP Caerdydd a'r Fro yn storio'ch stori'n ddiogel ac yn sicrhau ei bod ar gael i'w defnyddio mewn cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi. Byddwch yn gallu dewis a yw'r stori'n cael ei rhannu'n ehangach ar y rhyngrwyd neu ar lwyfan rhannu straeon digidol Cymru Gyfan, Civica.

Gallwch ofyn i ni ar unrhyw adeg i beidio â defnyddio neu rannu eich stori ymhellach. Yn syml, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod a byddwn yn dileu'r holl wybodaeth am eich stori sydd wedi'i storio gyda ni hyd eithaf ein gallu.

Gwyddom fod pobl weithiau'n cael profiadau sy'n peri gofid. Os yw hyn wedi digwydd i chi, neu os yw dweud eich stori yn peri gofid, bydd y person sy'n recordio'r stori yn siarad â chi a, gyda'ch caniatâd, bydd yn trefnu i rywun gysylltu â chi i ddarparu cymorth.

**Diogelu a diogelwch cleifion**

O bryd i'w gilydd, gall person ddweud wrthym am rywbeth a allai awgrymu ei fod mewn perygl, neu ddweud wrthym am rywbeth sy'n beryglus yn ein gwasanaethau.

Os credwn eich bod mewn perygl mewn unrhyw ffordd mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i ddweud wrth Arweinydd Diogelu ein Bwrdd Iechyd, a fydd wedyn yn ymchwilio i weld a ddylid cymryd camau, ac a oes angen iddynt hysbysu'r awdurdod diogelu statudol.

Os bydd eich stori'n datgelu bod sefyllfa sy'n anniogel neu a allai roi cleifion neu staff mewn perygl, byddwn yn cymryd camau ar unwaith i'w gwneud yn ddiogel. Byddwn ond yn datgelu manylion eich stori yn ôl yr angen i nodi'r mater ac i gymryd y camau priodol.

---

Os oes gennych gwestiynau cyn neu ar ôl eich recordiad neu os hoffech dynnu caniatâd yn ôl unrhyw bryd, gallwch gysylltu â chynrychiolydd canlynol y BIP:

Enw cyswllt: Jayne Catherall
Swydd: Arweinydd Profiad y Bobl - Llefarydd Digidol

Rhif ffôn: 02921 841102
E-bost: jayne.catherall@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar: https://cavuhb.nhs.wales/use-of-site/privacy-policy/